**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD IAU, 29 TACHWEDD, 2012**

**THURSDAY, 29 NOVEMBER, 2012**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR Y CYNGOR/COUNCIL CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENARLAG**
**DOLGELLAU**
**am /at 11.30am.**

**(Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig i gyfarfod ar Faes Parcio Diffwys, gyferbyn â Gwesty Tŷ Gorsaf, Blaenau Ffestiniog am 9.30am)**
**(Sub-committee members only to meet on Diffwys Car Park, opposite Tŷ Gorsaf Hotel, Blaenau Ffestiniog at 9.30am)**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 21/11/12

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd/Chairman)

John Brynmor Hughes

Llywarch Bowen Jones

Anwen Hughes (wrth gefn/reserve)

**Aelodau Lleol / Local Members**

Cynghorwyr/Councillors

Mandy Williams-Davies
(cais/application 4)

Gethin G. Williams
(ceisiadau/applications 5 a 6)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. 11.30am CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CELL B, SGWÂR Y PARC, BLAENAU FFESTINIOG**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **glas**)

**5. 1.30pm CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – LAST INN, STRYD YR EGLWYS, ABERMAW**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **pinc**)

**6. 2.30pm CAIS AM DRWYDDED EIDDO – THE CROWN HOTEL, STRYD YR EGLWYS, ABERMAW**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **aur**)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (MEIRIONNYDD)** |
| **DYDDIAD:** | **29 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CELL B , PARK SQUARE, BLAENAU FFESTINIOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i adolygu Trwydded eiddo Cell B, Park Square, Blaenau Ffestiniog, LL41 3AD gan Mr Ian Rogers, sydd yn preswylio yn Park Villa, Park Square, Blaenau Ffestiniog LL41 3AD.
Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r cais am adolygiad oherwydd ymddygiad gwrth gymdeithasol a sŵn yn hwyr yn y nos yn deillio o weithgareddau trwyddedig a gynhelir yn yr eiddo trwyddedig Cell B.
Cyflwynir yr adolygiad mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth o ddigwyddiadau gwrth gymdeithasol mewn perthynas â ymddygiad cwsmeriaid Cell B, mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at achosion lle y bu iddo dystio diffyg cydymffurfiad ag amodau trwydded yr eiddo -

- Cwsmeriaid yn cael eu caniatáu i adael yr eiddo gyda diodydd alcohol
- Cwsmeriaid a oedd yn amlwg yn feddw yn cael mynediad i'r eiddo
- Caniatáu i gwsmeriaid yfed alcohol fel eu bod wedi meddwi digon i achosi niwed iddynt eu hunain neu eraill.

Mae'r ymgeisydd yn gofyn i drwydded yr eiddo i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r argymhellion canlynol -

1. Diddymu'r hawl i werthu alcohol oddi ar y drwydded
2. Ystyried y cais i orchymyn fod Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) newydd yn cael ei apwyntio mewn perthynas â'r drwydded
3. Cwtogi'r oriau y caniateir yr eiddo i fod yn agored i 21:00 ( gweler yr oriau cyfredol ar y tabl isod)

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau |
| Llun/Sul | 12:00 – 23:30 | 00:00 | | 21:00 |

**YMGYNGHORIAD**

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd 10 o ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | 1 e bost – gwrthwynebu yr adolygiad |
| Cyngor Cymuned | Dim sylwadau |
| Heddlu | E bost –sylwadau |
| Preswylwyr Cyfagos | 7 llythyr, 10 e bost - gwrthwynebu |
| Gwasanaeth Tan | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd | Dim sylwadau |
| | |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU I'R ADOLYGIAD**

**Preswylwyr**

Gwrthwynebir y cais am adolygiad oherwydd nad oes sail tystiolaeth fod gweithgareddau yr eiddo a rheolaeth o'r eiddo yn tanseilio yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu'r cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Fe gyfeirir at gyfraniad gweithgareddau'r eiddo at ddiwylliant lleol; a ffyniant busnesau. Nid yw'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i amcanion y Ddeddf Drwyddedu 2003

**Aelodau'r Cyngor**

Gwrthwynebir y cais am adolygiad ; ar sail y cyfraniad diwylliedig gweithgareddau'r eiddo; ni chyfeirir at dystiolaeth o safbwynt yr amcanion trwyddedu.

**Heddlu**

Derbyniwyd cadarnhad gan yr Heddlu bod galwadau wedi eu derbyn gan Mr Rogers . Cafwyd hefyd cadarnhad fod yr Heddlu wedi rhoi hysbysiad cosb i ddwy ferch yn dilyn digwyddiad o ymddygiad gwrth gymdeithasol. Nid yw'r Heddlu wedi derbyn galwadau eraill gan drigolion Park Square ynglyn a Cell B.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (MEIRIONNYDD) |
|---|---|
| DYDDIAD: | 29 TACHWEDD 2012 |
| TEITL: | CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – LAST INN, STRYD YR EGLWYS ABERMAW |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH RHEOLEIDDIO |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo'r Last Inn, Stryd yr Eglwys, Abermaw, LL42 IEL gan Mr Gregory Courtney, deilydd trwydded yr eiddo, o'r un cyfeiriad. Cyflwynwyd y cais yn dilyn cyngor a dderbyniwyd gan yr Uned Gorfodaeth Trwyddedu.

Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r cais er mwyn ceisio caniatâd i ymestyn yr oriau a ganiateir gweithgareddau trwyddedig ar yr eiddo - yn benodol o safbwynt cerddoriaeth fyw; cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol.

Gweler y tabl isod am fanylion yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig, mewn perthynas a gweithgareddau trwyddedig ac oriau cau i'r cyhoedd.

| TRWYDDED GYFREDOL | | | TRWYDDED ARFAETHEDIG | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau | | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau |
| | **Cerddoriaeth fyw** | | | **Cerddoriaeth fyw** | |
| Llun - Iau | 11:00 – 23:00 | **23:30** | Sul - Iau | 11:00 – 00:00 | **01:30** |
| Gwen- Sul | 11:00 – 00:00 | **00:30** | Gwen - Sad | 11:00 – 01:00 | **01:30** |
| | **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | | | **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | |
| | 11:00 – 23:00 | | Llun - Sul | 11:00 – 01:00 | |
| | 11:00 – 00:00 | | | | |
| | **Perfformiad dawns** | | | **Perfformiad dawns** | |
| | 11:00 – 23:00 | | Llun - Sul | 11:00 – 01:00 | |
| | 11:00 – 00:00 | | | | |
| | **Cyflenwi alcohol** | | | **Cyflenwi alcohol** | |
| | 11:00 – 23:00 | | Llun - Sul | 11:00 – 01:00 * | |
| | 11:00 – 00:00 | | | | |
| | | | | | |

* Ar wahân i Nos Calan - gofynnir am ymestyniad i'r hawl i gyflenwi alcohol o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar y 31 o Ragfyr hyd at gychwyn oriau a ganiateir y diwrnod canlynol

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned | Dim sylwadau |
| Heddlu | Dim sylwadau hyd at y 13/11/12 |
| Preswylwyr Cyfagos | 8 llythyr, 5 yn cefnogi'r cais am wyriad; a 3 yn gwrthwynebu'r cais. |
| Gwasanaeth Tan | Llythyr - dim gwrthwynebiad |
| Yr Awdurdod Trwyddedu – fel Awdurdod Cyfrifol | E bost - sylwadau |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd | Dim sylwadau |

Yn ogystal â'r uchod , derbyniwyd llythyr gan yr Ymgeisydd yn amlinellu ei resymau dros wneud cais am ymestyn oriau gweithgareddau trwyddedig ac oriau agor.

Gan nad yw dyddiad yr ymgynghoriad yn dod i ben ar y cais hwn tan y 19/11/12; mae yna bosibilrwydd y bydd mwy o sylwadau yn cael eu derbyn.

Fe fydd unrhyw sylwadau ychwanegol perthnasol a dderbynnir cyn y 19/11/12 yn cael eu dosbarthu i'r Is-bwyllgor ar ddiwrnod y gwrandawiad.

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU I'R ADOLYGIAD**

**Preswylwyr cyfagos – cefnogi cais am wyriad**

Cefnogir y cais am wyriad oriau oherwydd nad oes tystiolaeth wedi bod o broblemau mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu.

**Preswylwyr cyfagos - gwrthwynebiad i'r cais am wyriad**

Gwrthwynebir y cais mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

**Uned Gorfodaeth Trwyddedu'r Cyngor yn ymateb i'r cais fel 'Awdurdod Perthnasol'**

Derbyniwyd e bost gyda sylwadau ar y cais. Cadarnhawyd fod y cais wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd mewn ymateb i gyngor a gafwyd gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu'r Cyngor. Cadarnhawyd yn ogystal fod y swyddogion wedi ymweld ar eiddo trwyddedig yn cael eu cynnal tu hwnt i'r oriau a ganiateir ar y drwydded gyfredol. Cofnodwyd yn ystod yr ymweliad fod cwsmeriaid yn bresennol a gweithgareddau trwyddedig yn parhau i gymryd lle am 00:50 y bore, yn groes i amodau'r drwydded gyfredol.

**RHYBUDDION O DDIGWYDDIADAU DROS DRO**

Derbyniwyd 11 rhybudd o ddigwyddiad dros dro (TENS) gan ddeilydd trwydded yr eiddo er mwyn cynnal gweithgareddau trwyddedig am 1 awr yn ychwanegol, bob nos Fawrth a nos Sadwrn rhwng y 6ed o Dachwedd a'r 11eg o Ragfyr.
Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan yr awdurdodau perthnasol i'r rhybuddion digwyddiad dros dro a gyflwynwyd.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (MEIRIONNYDD)** |
| **DYDDIAD:** | **29 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – THE CROWN HOTEL, STRYD YR EGLWYS, ABERMAW** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Crown Hotel, Stryd yr Eglwys, Abermaw, LL42 1EW gan Mr. Abdul Jalil, Esha House, Manor Avenue, Pwllheli LL53 5AF.
Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r cais er mwyn cael yr hawl i werthu alcohol ar yr eiddo rhwng 17:00 a 23:00 saith niwrnod yr wythnos.

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd un llythyr o ymateb gan berchennog Busnes cyfagos. Fe wneir honiadau yn y llythyr o hanes o dor cyfraith mewn perthynas â safleoedd eraill o dan berchnogaeth Mr Jalil. Mae'r honiadau a wneir yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn.
Gweler yr adroddiad am gynnwys y llythyr gwrthwynebiad.

Yn dilyn derbyn y llythyr, fe ymgynghorwyd gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU parthed yr honiadau a wneir gan y Gwrthwynebydd. Mae e bost wedi ei dderbyn gan yr Asiantaeth a fydd yn cael ei ddosbarthu yn ystod yr Is Bwyllgor hwn, er eich sylw ac i'ch cynorthwyo yn eich penderfyniad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.